# Amserlen Penderfyniadau

## Panel Trwyddedu (Tacsi)

**I BOB AELOD CYNGOR DINAS CASNEWYDD**

**Atodlen Penderfyniadau a gyhoeddwyd ar 3 Awst 2022**

Gwnaeth y Panel Trwyddedu Tacsis y penderfyniadau canlynol ar **2 Awst 2022**, a ddaeth i rym ar unwaith.

Cynghorwyr: Kate Thomas (Cadeirydd), Allan Morris and Rhian Howells.

**Rhan 2**

**Eitemau Eithriedig neu Gyfrinachol**

Mae'r eitemau canlynol yn cynnwys gwybodaeth gyfrinachol neu eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Felly, nid yw adroddiadau a phapurau cefndir sy'n ymwneud â'r penderfyniadau hyn i'w cyhoeddi ac maent yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Ddeddf fel y maent yn ymwneud â chylchrediad i'r wasg a'r cyhoedd.

**LIC PAN 08/22**

**Trwyddedau Llogi Preifat / Cerbydau Hacni**

**Penderfyniad**

Gyrrwr AZ

Ystyriodd y Panel Trwyddedu adroddiad y Swyddog a chyflwyniad y gyrrwr i'r Panel Trwyddedu yn ofalus. Cytunodd y Panel y byddai'r gyrrwr yn cael rhybudd a'i atal am 1 mis ar yr amod ei fod yn pasio'r Prawf Gwybodaeth o fewn y cyfnod o fis. Dywedodd y Panel hefyd y dylai'r gyrrwr ystyried gosod teledu cylch cyfyng yn ei gerbyd.

Gyrrwr BAHD

Oherwydd absenoldeb y gyrrwr a gohirio blaenorol, ystyriodd y Panel Trwyddedu'r achos yn absenoldeb y gyrrwr. Ystyriodd y Panel Trwyddedu adroddiad y Swyddog yn ofalus a dywedodd y dylid rhoi rhybudd i'r gyrrwr a gwaharddiad o bythefnos ar yr amod ei fod yn pasio'r Prawf Gwybodaeth o fewn amser yr ataliad. Gofynnodd y Panel hefyd i gerbyd y gyrrwr gael ei osod â theledu cylch cyfyng a Dash Cam.

Gyrrwr JR

Gohiriwyd y gwrandawiad i'w aildrefnu.

Gyrrwr TT

Ystyriodd y Panel Trwyddedu adroddiad y Swyddog a chyflwyniad y Gyrrwr i'r Panel Trwyddedu yn ofalus. Cytunodd y Panel, yn dilyn gwiriad GDG clir ac o leiaf dri geirda, gydag o leiaf un yn geirda proffesiynol, y byddai'r ymgeisydd yn cael trwydded dros dro am 6 mis. Ymhellach i hyn, byddai trwydded y gyrrwr yn cael ei hadolygu a'i hailddilysu ddwywaith y flwyddyn yn dilyn gwiriad clir gan y tîm Trwyddedu nes bod y gyrrwr wedi bod yn breswylydd yn y DU am 5 mlynedd. Gofynnodd y Panel hefyd i'r tîm Trwyddedu gysylltu â'r Gweithredwyr ynghylch yr ymgeisydd yn ystod cyfnod y drwydded dros dro. Gofynnodd y Panel i gerbyd y gyrrwr gael ei osod â theledu cylch cyfyng a Dash Cam.

**Ymgynghoriad**

Ddim yn berthnasol.
**Gweithredir gan:** Pennaeth y Gyfraith a Rheoleiddio
**Amserlen Weithredu:** Ar unwaith

---